

Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy: diweddariad 2024 Papur briffio

Ebrill 2024



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
ymchwil.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

X: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2024**

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy: diweddariad 2024

Papur briffio

Ebrill 2024

Awdur:
Dr Katy Orford



Cynnwys

1. Trefniadau newydd yn lle Polisi Amaethyddol Cyffredin yr UE	2
2. Cynigion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy	3
Cymhwystra	4
‘Gweithredoedd’ arfaethedig	4
Rheolau’r cynllun: 10 y cant o orchudd coed a 10 y cant o gynefinoedd lled-naturiol.....	8
Yr Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd a’r cyfrifiannell carbon	11
Dull talu.....	11
Modelau ffermio gwahanol	12
Cyngor ac arweiniad.....	14
Cydydffurfio	15
3. Safonau Gofynnol Cenedlaethol.....	16
4. Modelu effaith economaidd.....	17
5. Cyllideb	19

6. Cymorth amaethyddol mewn rhannau eraill o'r DU20

Lloegr..... 20

Yr Alban..... 20

Gogledd Iwerddon.....21

7. Y camau nesaf 22

Mae'r papur briffio hwn yn crynhoi cynigion ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r ymatebion gan randdeiliaid.

Y **Cynllun Ffermio Cynaliadwy** ('y cynllun') yw polisi amaethyddol newydd arfaethedig Llywodraeth Cymru i gymryd lle system cymorth i ffermwyr **Polisi Amaethyddol Cyffredin yr UE (PAC)**.

Byddai'r cynllun newydd yn gwobrwyo ffermwyr am gymryd camau yn seiliedig ar **amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy**. Mae'n wyriad sylweddol oddi wrth y system bresennol o daliadau uniongyrchol, gyda mwy o bwyslais ar wobrwyo am nwyddau cyhoeddus, yn enwedig am gymryd camau amgylcheddol.

Mae'r cynigion wedi'u datblygu dros nifer o flynyddoedd gyda **ymgyngoriadau lluosog** ac **ymarfer cyd-ddylunio**. Disgrifiwyd yr **ymgyngoriad diweddaraf**, a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024, fel y "cam olaf" cyn cyflwyno'r cynllun yn 2025.

Mae'r cynigion wedi cael **ymateb cryf** gan y diwydiant ffermio, a **dywed yr undebau** y gallai fod angen i Lywodraeth Cymru ohirio'r cynllun. Fodd bynnag, mae **grwpiau amgylcheddol** yn rhybuddio am natur frys yr argyfyngau hinsawdd a natur. Mae'r Senedd wedi bod yn **crافu ar y cynllun** ac mae'r sylw'n troi'n awr at Huw Irranca-Davies, yr Ysgrifennydd Cabinet newydd dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, a'r camau nesaf.

I weld trosolwg cyflym o'r cynllun, **darllenwch ein herthygl** (Mawrth 2024). Mae ein **briff ymchwil ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy** o 2022 hefyd yn rhoi dadansoddiad o fersiwn flaenorol y cynllun.

1. Trefniadau newydd yn lle Polisi Amaethyddol Cyffredin yr UE

Ers i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal system gymorth Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yr Undeb Ewropeaidd. Mae hyn wedi cadw'r status quo i raddau helaeth cyn trosglwyddo i gynllun newydd. I gael rhagor o wybodaeth am y system honno, gweler **ein briff ymchwil o 2022**.

Mae **Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023** yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyflwyno cynllun amaethyddol newydd. Rhagwelir y bydd y Cynllun yn disodli system y Polisi Amaethyddol Cyffredin yn ei chyfanrwydd:

- Mae taliadau uniongyrchol i ffermwyr drwy **Gynllun Taliad Sylfaenol y PAC** wedi parhau yn y Deyrnas Unedig, ond y bwriad yw eu **diddymu'n raddol** rhwng 2025 a 2029 (y 'Cyfnod Pontio'), yn dilyn cyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Byddai'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r Cynllun Taliad Sylfaenol yn rhedeg ar yr un pryd yn ystod y Cyfnod Pontio, a byddai ffermwyr yn gallu ymuno naill ai â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy neu'r Cynllun Taliad Sylfaenol yn ystod y cyfnod hwnnw, ond nid y ddau. Byddai'r Cynllun Taliad Sylfaenol yn lleihau'n raddol (20 y cant y flwyddyn) fel mai dim ond y Cynllun Ffermio Cynaliadwy fyddai ar gael yn 2029.
- Daeth piler **Rhaglen Datblygu Gwledig** y PAC i ben ddiwedd 2023 yn y DU. Yng Nghymru, mae cynlluniau'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi eu disodli gan **gynlluniau buddsoddi gwledig, Cynllun Cynefin Cymru** a'r **Cynllun Cymorth Organig** fel mesurau dros dro, cyn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn 2025.

2. Cynigion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Disgrifiwyd **ymgyngoriad diweddaraf Llywodraeth Cymru**, a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024, fel y “cam olaf” cyn cyflwyno'r cynllun yn 2025, gyda disgwyl cynnal y cyfnod ymgeisio cyntaf rhwng mis Mawrth a mis Mai 2025. Mae **cyflwyniad gan Lywodraeth Cymru** yn rhoi trosolwg o hyn.

Daw'r cynigion hyn yn dilyn **sawl ymgyngoriad** (fersiwn flaenorol y cynllun oedd y **Cynllun amlinellol**, a gyhoeddwyd yn 2022) ac **ymarfer cyd-ddylunio** lle cyfrannodd ffermwyr at ddyluniad y cynllun. Daw'r cynigion a ddisgrifir yn y papur briffio hwn o'r **ymgyngoriad diweddaraf (2023-24)** yn bennaf.

O dan cynigion y Cynllun, byddai ffermwyr yn cael eu gwobrwyo am gymryd camau uwchlaw'r gofynion cyfreithiol sylfaenol, a hynny i gyflawni canlyniadau amgylcheddol, lles anifeiliaid a chymdeithasol. Mae'r rhain yn cyd-fynd â'r **amcanion Rheoli Tir yn Cynaliadwy** yn Neddff Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, sef:

1. cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy;
2. lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd;
3. cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision maent yn eu darparu; a
4. chadw a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt a'u hymgysylltiad â hwy, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd.

Byddai'n ofynnol i bob ffermwr sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy gyflawni cyfres o 'Weithredodd Cyffredinol' er mwyn cael 'Taliad Sylfaenol Cyffredinol'. Yna, yn seiliedig ar hynny, byddai gweithredoedd 'Opsynol' a 'Chydweithredol' yn fodd iddynt gael cymorth pellach.

Mae rheolau'r cynllun, sy'n ofynnol ar gyfer cyfranogiad, yn cynnwys:

- o leiaf 10 y cant o bob fferm yn cael ei reoli fel cynefin; a hefyd
- o leiaf 10 y cant o dan orchudd coed fel coetir neu goed unigol.

Mae'r ymgyngoriad yn cynnig cyflwyno'r Cynllun gan ddefnyddio model gweithredu Taliadau Gwledig Cymru, sy'n defnyddio dull datganiad blynyddol ar gyfer y Gweithredoedd Cyffredinol.

Cymhwystra

Caiff cymhwystra y cynllun ei ddisgrifio yn **ymgyngoriad 2023-24** fel a ganlyn:

Rhaid i chi (y ffermwr) ymgymryd â gweithgareddau amaethyddol neu weithgareddau cysylltiedig ar dir amaethyddol.

Rhaid bod gennych o leiaf dri hectar o dir amaethyddol cymwys yng Nghymru neu ddangos i chi wneud mwy na 550 awr o lafur safonol,

a

Rhaid mai chi yw unig feddiannydd y tir a bod gennych reolaeth lwyr arno am o leiaf 10 mis o'r flwyddyn galendr.

Diffinnir amaethyddiaeth a gweithgareddau cysylltiedig yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. Mae'r ymgynghoriad yn crynhoi hyn fel a ganlyn:

...cynhyrchu, magu neu dyfu cynhyrchion amaethyddol, gan gynnwys cynaeafu, godro, bridio anifeiliaid a chadw anifeiliaid at ddibenion ffermio a gweithredu ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth i greu a rheoli cynefinoedd, cadw natur, lliniaru ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd neu gynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau.

Mae'r meini prawf cymhwystra wedi cael eu haddasu ers yr **ymgyngoriad blaenorol (2022)**, gan ychwanegu'r dewis o ddangos mwy na 550 o oriau llafur safonol, fel bod mentrau llai, fel garddwriaethwyr, yn gallu cael mynediad at y cynllun.

'Gweithredoedd' arfaethedig

Gweithredoedd Cyffredinol

Mae **17 o Weithredoedd Cyffredinol arfaethedig** sy'n orfodol i gyfranogwyr y cynllun. Nid yw rhai yn berthnasol i bob fferm e.e. nid oes angen cymryd camau iechyd anifeiliaid ar ffermydd â'r. Mae Llywodraeth Cymru yn pwysleisio y caiff arfer da presennol ei wobrwyo. Yr 17 Gweithred Cyffredinol yw:

UA1: Meincnodi

UA2: Datblygiad Personol Parhaus

UA3: Gweithredoedd i helpu i reoli pridd ac adnoddau

UA4: Cnydau gorchudd amlrywogaeth

UA5: Rheolaeth integredig ar blâu

UA6: Rheoli mawnogydd sydd wedi'u newid yn fawr

UA7: Cynnal cynefinoedd

UA8: Creu cynefin dros dro ar dir wedi'i wella

UA9: Cynlluniau Rheoli Safleoedd Dynodedig

UA10: Pyllau dŵr parhaol a thymhorol

UA11: Rheoli perthi / gwrychoedd

UA12: Cynnal a Chadw Coetir

UA13: Creu coetir ac amaeth-goedwigaeth newydd

UA14: Amgylchedd hanesyddol - cynnal a gwella

UA15: Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid

UA16: Lles eich anifeiliaid

UA17: Bioddiogelwch da ar y fferm

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn dweud bod y Gweithredoedd Cyffredinol yn perthyn yn fras i bedwar categori: datblygu ffermwyr; iechyd y pridd; iechyd a lles anifeiliaid; a thirweddau a chynefinoedd.

UA7: Cynnal cynefinoedd sy'n dangos nodau Llywodraeth Cymru i baru cynhyrchiant bwyd a manteision amgylcheddol. Mae'r ymgynghoriad yn rhoi enghraifft o laswelltir sych lled-naturiol wedi ei amgáu - i'w gynnal drwy ei bori er mwyn cyrraedd uchder amrywiol ac amrywiaeth o rywogaethau planhigion brodorol sy'n blodeuo a hadu. Ar gyfer pob math o gynefin, bydd Llywodraeth Cymru yn manylu ynghylch: canlyniadau mesuradwy; argymhellion rheoli; a chyfyngiadau.

Dywed RSPB Cymru na fydd y cynigion yn gwarantu'r cymysgedd o gynefinoedd tir fferm sydd eu hangen i **atal colli natur erbyn 2030**:

Dylai'r amrywiaeth hwn efelychu'r cynefinoedd hynny y byddai

ffermio traddodiadol unwaith wedi'u darparu'n helaeth, gan gynnwys cynefinoedd llawn blodau a chnydau sy'n cynnal hadau, gwrychoedd trwchus, prysg ac ardaloedd â glaswellt garw. Rhaid rheoli'r manau y mae angen cynefinoedd newydd mewn ffyrdd sydd o fudd i fyd natur. Nid yw'r cynigion presennol yn gwarantu hyn.

Nid yw'r cynigion yn cynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yn UA7. Dywedir yn yr ymgynghoriad bod hyn oherwydd y gofynion rheoleiddio uwch sy'n sail i safleoedd SoDdGA, ac mae taliadau ar gyfer gweithredoedd uwchlaw'r llinell sylfaen reoleiddiol. Cynigir y bydd tir SoDdGA yn cael ei flaenoriaethu i'w gynnwys yn y Gweithredoedd Opsiynol a "byddwn yn parhau i ystyried cyfeuedd i dalu taliadau cynnal a chadw ar gyfer SoDdGAu". Mae **NFU Cymru** a **Cyswilt Amgylchedd Cymru** wedi mynegi pryder nad yw taliadau cynnal ar gyfer tir SoDdGA wedi eu cynnwys yn y Taliad Sylfaenol Cyffredinol.

Mae rhanddeiliaid wedi nodi cyfyngiadau posibl eraill ar rai Gweithredoedd Cyffredinol. **Dywedodd Soil Association Cymru** nad yw'r gweithredoedd yn mynd yn ddigon pell i gymell y gostyngiad yn y defnydd o wrtaith wedi ei weithgynhyrchu ar y raddfa sydd ei angen i adfer iechyd y pridd. **Dywed Cyswilt Amgylchedd Cymru** fod UA17 ar fiolddiogelwch da ar ffermydd yn canolbwyntio ar dda byw yn unig, ac mae'n colli cyfle i ystyried materion biolddiogelwch eraill fel mynd i'r afael â chlefydau coed a rhywogaethau ymledol.

Mae **NFU Cymru yn pryderu** bod gormod o Weithredoedd Cyffredinol rhagnodol, a bydd cofnodi gwaith tuag atynt yn ormod o faich. Mae'n galw am elfen sefydlogrwydd cryf (drwy **daliad cymorth sylfaenol**) yn y Cynllun terfynol ac i'r gweithredoedd cyffredinol fod yn gyraeddadwy ar gyfer pob math o fferm.

Dywed NFU Cymru hefyd nad yw gweithredoedd y cynllun yn cynnig digon o gymorth ar gyfer cynhyrchu bwyd cynaliadwy ac felly nad ydynt yn mynd i'r afael yn briodol â'r amcan cyntaf o ran Rheoli Tir yn Gynaliadwy (cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy). Mae nifer o randdeiliaid (**ee y Gymdeithas Ffermwyr Tenant**) wedi mynegi pryderon ynghylch diogelwch bwyd. **Dywed Dr Ludvine Petetin (Prifysgol Caerdydd)** fod y cynigion yn ddiffygiol o ran y math o fwyd yr ydym am annog ei dyfu. Dywedodd nad yw'n hybu tyfu ffrwythau a llysiau, er enghraifft.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddadlau, yn sgil y ffaith bod gan fwyd werth ar y farchnad, na ddylid ei ystyried yn fudd cyhoeddus, ac felly na ddylai'r wladwriaeth ei ariannu'n uniongyrchol. Yn hytrach, **dywedodd Llywodraeth Cymru** y bydd cefnogi gwell gamau rheoli amgylcheddol yn gwella cynhyrchiant bwyd cynaliadwy, gan fod y ddau beth yn mynd law yn llaw. Mae'r **Rhwydwaith Ffermio**

er Lles Natur yn croesawu y farn y gellir cyflawni cynhyrchiant bwyd, natur, hinsawdd a chanlyniadau economaidd-gymdeithasol gyda'i gilydd.

Gweithredoedd Opsiynol

Mae'r ymgynghoriad yn rhestru **Gweithredoedd Opsiynol dros dro**. Mae'r rhain yn wirfoddol a'u bwriad yw mynd y tu hwnt i'r Gweithredoedd Cyffredinol. Mae enghreifftiau yn cynnwys cymorth:

- i fusnesau garddwrol newydd neu i fentrau garddwrol newydd o fewn busnes fferm sy'n bod eisoes;
- i brosiectau arloesi sy'n treialu technegau neu dechnolegau newydd ar lefel ymarferol, gan roi sylw arbennig i gynaliadwyedd, gwneud y farchnad yn fwy amrywiol a gwneud y fferm yn fwy cydnerth; ac
- ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy.

Gweithredoedd Cydweithredol

Mae Gweithredoedd Cydweithredol yn fesurau gwirfoddol i ffermwyr weithredu ar raddfa leol, tirwedd, dalgylch neu'n genedlaethol. Mae'r cynigion yn cynnwys:

- gweithredu ar lefel tirwedd, er mwyn cynnal atebion sy'n seiliedig ar natur ar lefel tirwedd;
- rhannu arloesedd a gwybodaeth ym maes amaethyddiaeth, i sicrhau bod gwybodaeth a gweithgareddau arloesol yn cael eu rhannu er mwyn datblygu prosesau, technegau a thechnolegau newydd; a
- chydweithredu, i alluogi busnesau fferm i gydweithredu â'i gilydd, gan alluogi rhannu cyfleusterau ac adnoddau i gynyddu proffidioldeb a chydnerthedd busnesau fferm.

Cyflwyno'r strwythur haenog

Mae'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar y Gweithredoedd Cyffredinol, gyda llai o fanylion am y Camau Gweithredu Opsiynol a Chydweithredol mwy datblygedig. Mae'n cynnig y caiff y camau gweithredu uwch hyn eu datblygu a'u cyflwyno'n ddiweddarach, a hynny yn ystod y Cyfnod Pontio. Mae hyn yn newid ffocws o ymgynghoriad 2022.

Dywedodd yr undebau ffermio a grwpiau amgylcheddol **wrth Bwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith y Senedd** ym mis Mawrth, er eu bod yn croesawu'r strwythur haenog, fod ganddynt bryderon ynghylch yr oedi o ran yr

haenau uwch. Dywedodd yr Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur mai'r haenau hyn fydd yn darparu'r budd amgylcheddol mwyaf, ac y byddai'r oedi yn anfanteisiol i ffermwyr sydd eisoes yn cyflawni dros yr amgylchedd, gan eu rhoi yng nghefn y ciw. Mae **Cyswilt Amgylchedd Cymru yn galw** am gyflwyno'r haenau uwch gael eu cyflwyno o fewn 12 mis ar ôl lansio'r cynllun.

Dywedodd Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) y dylid cyflwyno'r haenau hyn cyn gynted â phosibl i ddarparu cyllid ar gyfer: rheoli SoDdGA; tir comin; cynhyrchwyr organig; cynhyrchu ynni adnewyddadwy; a byrhau cadwyni cyflenwi.

Rheolau'r cynllun: 10 y cant o orchudd coed a 10 y cant o gynefinoedd lled-naturiol

Un maes dadleuol allweddol fu'r gofyniad i ffermwyr gael o leiaf 10 y cant o dan orchudd coed ar eu fferm (a gynigiwyd gyntaf yn ymgynghoriad 2022). Mae hyn ochr yn ochr â gofyniad arall i ffermwyr reoli o leiaf 10 y cant o'u tir fel cynefinoedd lled-naturiol.

Dywed Coed Cadw bod gorchudd coed, ar gyfartaledd, yn 6-7 y cant ar ffermydd yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio y bydd y gorchudd coed presennol yn cael ei gydnabod ac y bydd angen cwblhau unrhyw waith plannu coed ychwanegol i fodloni'r rheol 10 y cant erbyn 2030.

Mae **Llywodraeth Cymru wedi dweud** bod y rheol gorchudd coed o 10 y cant yn seiliedig ar gyngor Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU (UKCCC). Roedd **adroddiad cynnydd UKCCC yn 2023: Reducing emissions in Wales** yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gymryd y camau canlynol:

Maintain and enhance incentives to support agroforestry and hedgerows in the Welsh farmed landscape over the transition to the new post-CAP framework. Plant trees on 2% of farmland by 2025 while maintaining its primary use, rising to 5% by 2035, and extend hedgerows by 20% by 2035 and better manage existing hedgerows.

Hefyd:

Implement a strategy to address non-financial barriers to achieve annual tree planting rates of at least 4,500 hectares/year in Wales by 2030, rising to 7,500/year by 2035.

Bu'n **bryder ymhlith ffermwyr** na fyddai 10 y cant o orchudd coed a 10 y cant o gynefinoedd lled-naturiol yn ymarferol, ac y byddai felly'n rhwystr rhag cymryd rhan yn y Cynllun.

Mae dadleuon yn erbyn y cynnig o orchudd coed o 10 y cant yn cynnwys:

- bydd yn anodd i rai ffermwyr ei gyflawni os nad yw eu tir yn addas ar gyfer plannu coed e.e. ffermydd ucheldir a ffermydd arfordirol;
- mae'n bosibl na fydd modd i ffermwyr tir comin a ffermwyr tenant ei gyflawni oherwydd cyfyngiadau yn eu contractau;
- byddai'n golygu bod llai o dir ar gyfer cynhyrchu, gyda phryderon cysylltiedig ynghylch hyfywedd busnes a sicrwydd bwyd;
- gallai coed a blennir mewn mannau anghywir - er enghraifft, ar fawndir - gael effaith andwyol ar yr amgylchedd; a
- gallai diffyg planhigfeydd lleol ar gyfer coed brodorol i ddarparu glasbrennau beri risg o afiechydon yn lledaenu pe bai angen mewnfario coed.

Mae'r **dadansoddiad o adborth i gynigion amlinellol y cynllun** a'r **adroddiad cyd-ddylunio terfynol** yn cynnig rhagor o wybodaeth.

Mae Llywodraeth Cymru **wedi amlinellu** manteision plannu coed, gan gynnwys:

- lleiniau cysgod;
- llochesau i anifeiliaid;
- bioddiogelwch (pellter rhwng ffermydd cyfagos);
- diogelu ansawdd dŵr ac atal llifogydd;
- gwella bioamrywiaeth;
- lliniaru newid hinsawdd;
- ansawdd aer; a
- gwerth hamdden (ochr yn ochr â mynediad i'r cyhoedd).

Cafodd y cynnig o orchudd coed o 10 y cant ei ddiwygio ers ymgynghoriad 2022. Mae ymgynghoriad 2024 yn newid y gofyniad fel na fyddai'n 10 y cant o'r daliad cyfan, ond yn 10% o ddaliad yr ardal sy'n weddill unwaith y bydd ardaloedd anaddas wedi'u nodi.

Yn **ei llythyr** ynghylch **deiseb i'r Senedd** ar y gofyniad i gael gorchudd coed dros 10 y cant o'r tir, dywedodd Lesley Griffiths, y Gweinidog Materion Gwledig, Gogledd Cymru a'r Trefnydd (ar y pryd):

Yn wahanol i'r Cynllun Taliad Sylfaenol presennol, bydd coed a choetiroedd yn cael eu cynnwys yn yr arwynebedd tir sy'n cynhyrchu taliadau i ffermwyr, felly rwy'n gobeithio y gall ffermwyr unwaith eto ddysgu i werthfawrogi'r manteision lluosog a ddarperir gan goed.

Mae NFU Cymru yn parhau i bryderu bod y rheol yn y cynllun ynghylch cael gorchudd coed o 10 y cant yn debygol o fod yn rhwystr i fynediad i lawer o fusnesau. Mae ffermwyr yn dadlau y gallai rheolau'r ddau gynllun olygu nad oes cynhyrchiant ar 20 y cant o'u tir.

Mae Coed Cadw yn nodi:

nid yw'n ofynnol i ffermydd neilltuo 20% o'u tir i greu gorchudd coed a chynefin. Mae llawer o hyblygrwydd yma, er enghraifft gellir cynnwys gorchudd coed a choetir brodorol y fferm fel rhan o'r gofyniad gorchudd coed a'r gofyniad cynefin. Mae cynefin yn cynnwys glaswelltir a rhostir cyfoethog ei rywogaethau sy'n parhau i gael ei bori ac i fod yn gynhyrchiol, a ble nad oes gan ffermydd ddigon o'r cynefinoedd parhaol hyn, gallant fodloni'r gofyniad drwy greu cynefin dros dro o werth, fel porfeydd aml-rywogaeth.

Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru **yn croesawu'r gofynion**, tra'n pwysleisio bod cyngor proffesiynol ac annibynnol ar lefel fferm yn bwysig i sicrhau egwyddor y goeden iawn yn y lle iawn i warantu manteision amgylcheddol. **Mae RSPB Cymru yn pryderu** bod y cynigion yn nodi mai cynefinoedd o ansawdd isel yw'r rhai mwyaf addas ar gyfer plannu coed, a all fod yr ardaloedd mwyaf cyfoethog o ran natur ar rai ffermydd.

Dywed Cyswllt Amgylchedd Cymru, os na fyddwn ni'n integreiddio mwy o orchudd coed yn effeithiol i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, mae risg sylweddol y bydd y duedd bresennol o drawsnewid tir yn parhau.

Trafododd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ddulliau eraill o ddatgarboneiddio gyda thystion academaidd, megis adfer mawndiroedd a thyfu cynydau biomas. Dywedodd yr Athro Iain Donnison (pennaeth Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS), Prifysgol Aberystwyth) **yn ei dystiolaeth:**

...the Welsh Government has accepted the CCC recommendation on tree planting, but seemingly not accepted the recommendations on biomass crops. Perennial biomass crops could reasonably be planted on some farms in lieu of trees, providing flexibility to farmers who are either restricted by tenancy agreements or looking for a more regular income stream. Perennial biomass crops (e.g. Miscanthus, short rotation coppice willow, short rotation forestry poplar) also have the potential to help decarbonise industrial sectors, for example providing carbon in the manufacture of green steel, and would therefore have the potential to feed into local supply chains within Wales.

Yr Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd a'r cyfrifiannell carbon

I'r rhai sy'n cymryd rhan yn y Cynllun, byddai angen 'Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd' o'r fferm fel asesiad sylfaenol amgylcheddol, gan nodi mathau eang o gynefinoedd, coed a pherthi/gwrychoedd, yn ogystal â nodweddion fferm eraill. Byddai hyn yn cynnwys asesu'r gorchudd coed o 10 y cant a gofynion cynefinoedd 10 y cant. Byddai ffermwyr yn gwirio ac yn diweddarau gwybodaeth sydd gan Lywodraeth Cymru.

Byddai hefyd yn ofynnol i ffermwyr gwblhau asesiad carbon o fewn y flwyddyn gyntaf y byddent yn ymuno â'r cynllun, gan ddefnyddio cyfrifiannell carbon. Dywedir yn yr ymgynghoriad y byddai hyn yn helpu i nodi cyfleoedd ac effeithlonrwydd i leihau allyriadau a chostau. Byddai'r data hyn yn cael eu hagregu a'u defnyddio i ddeall effaith gyffredinol y sector o ran carbon. Mae llawer o gyfrifiannellau carbon ar gael ond dim ond un math fyddai'n cael ei ddefnyddio i ganiatáu agregu data.

Dull talu

Nid yw lefelau taliadau wedi'u darparu gyda'r ymgynghoriad. Disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi **yn yr haf** yn dilyn canlyniad yr ymgynghoriad a dadansoddiad economaidd pellach. Dywed ffermwyr bod hyn yn ei gwneud hi'n anodd iddynt wneud sylwadau ar ymarferoldeb y cynigion.

Bydd y dull talu a gynigir ar gyfer y Taliad Sylfaenol Cyffredinol yn amcangyfrif o'r gost y bydd ffermwyr yn ei hysgwyddo a'r incwm y byddant yn ei golli o ganlyniad i ymgymryd â'r Gweithredoedd Cyffredinol. Bydd y taliad yn seiliedig ar arwynebedd y fferm. Gall taliadau fod yn ddarostyngedig i reolaethau ariannol fel capio.

At hynny, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried gwobrwyo gwerth cymdeithasol y canlyniadau drwy'r dull 'cyfalaf naturiol' (gan ddadansoddi gwerth ariannol buddion sy'n deillio o'r amgylchedd naturiol).

Bwriad 'Taliad Sefydlogrwydd' yw cynorthwyo'r rhai sy'n symud o'r Cynllun Taliad Sylfaenol i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, drwy roi incwm parhaus (drwy ychwanegu at y taliadau Cynllun Ffermio Cynaliadwy os ydynt yn is na gwerth 'tybiannol' y Cynllun Taliad Sylfaenol). Mae'r Taliad Sefydlogrwydd hwn ar gyfer y cyfnod pontio yn unig, a byddai'n dod i ben yn 2029.

Roedd consensws ymhlith y rhanddeiliaid **a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith** na fydd y model ysgwyddo costau

a cholli incwm yn darparu incwm ystyrlon. Maent yn awgrymu y bydd ei uchelgais yn methu os na fydd cymhellant i ymuno â'r cynllun.

Mae'r Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur **yn galw am y canlynol:**

...Payments that go beyond income foregone and costs incurred that deliver genuine outcomes through schemes that are more flexible, reward results and harness existing farmer knowledge.

Mae nifer o randdeiliaid (ee **Soil Association Cymru**) yn pryderu y byddai ffermydd bach, megis mentrau garddwriaethol bach, dan anfantais o dan y dull talu.

Mae nifer o randdeiliaid (ee **FUW**) wedi amlygu na fydd y dull talu yn cefnogi newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant.

Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith,

mynegodd FUW bryder fod y cyfrifiad cyfalaf naturiol yn gymhleth ac ar gam datblygu cynnar iawn, gan ei ddisgrifio fel 'meddwl heb orwelion'. Tynnodd Soil Association Cymru sylw at fylchau data o ran asesu gwasanaethau ecosystem o weithredoedd, ond amlinellodd y gellir defnyddio dirprwyon i bwysoli taliadau. Tynnodd RSPB Cymru sylw at waith ynghylch gwerthfawrogi gwasanaethau ecosystem:

The work that we've done showed that for every £1 invested in these habitats, the peatland generated £4.62 worth of benefit; saltmarsh, £1.31; and woodland, £2.79. And those are based on a range of societal benefits. So, it's possible to do this...

Modelau ffermio gwahanol

Mae sawl rhanddeiliad wedi tynnu sylw at y ffaith nad yw dyluniad y cynllun yn briodol ar gyfer amryw fodolau ffermio gwahanol. Ceir rhai enghreifftiau isod.

Tir comin

Caiff tir comin ei ddiffinio'n gyffredinol fel tir sy'n eiddo i un parti y mae gan barti arall hawliau penodol drosto, megis yr hawl i bori gwartheg.

Sefydlodd Llywodraeth Cymru weithgor tiroedd comin i helpu i lunio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Fodd bynnag, mae ffermwyr tir comin wedi **mynegi pryderon** na fydd y cynllun yn gweithio iddynt.

Mae'r cynigion presennol ynghylch y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cyfeirio'n bennaf at dir amaeth caeedig. Yn ôl yr ymgynghoriad, mae natur tir comin yn

cyflwyno amrywiaeth o heriau o ran ymarferoldeb cynigion y Cynllun. Mae'n dweud, oherwydd cymhlethdodau perchnogaeth tir comin a dyrannu hawliau, nad yw Llywodraeth Cymru yn gallu talu i unigolion am lawer o'r Gweithredoedd Cyffredinol arfaethedig, oni bai mai nhw sy'n llwyr gyfrifol am reoli'r tir comin.

Cynigir yn yr ymgynghoriad y dylai Cynllun Rheoli Tir Comin gael ei ddatblygu ar gyfer pob comin ar y cyd gan ddeiliaid hawliau a pherchenogion tir, gyda chymorth sefydliadau cymorth o bosibl. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried a yw'n briodol darparu cymorth pellach ar gyfer hwyluso a llywodraethu. Mae'n cynnig elfen ychwanegol o gymorth ariannol i borwyr unigol a delir drwy'r Taliad Sefydlogrwydd nes bod y cymorth Cydweithredol wedi ei gyflwyno.

Mae NFU Cymru yn amlygu pwysigrwydd incwm Cynllun y Taliad Sylfaenol i gominwyr, ac yn rhybuddio na fydd cytundebau cydweithredol yn bosibl ym mhob achos.

Tir â thenantiaid

Roedd pryder yn dilyn yr ymgynghoriad yn 2022 na fyddai'r cynllun arfaethedig yn iawn i ffermwyr sy'n denantiaid. Er enghraifft, oherwydd cyfyngiadau yn eu contractau. Sefydlodd Llywodraeth Cymru weithgor ffermwyr tenant i gyfrannu at y cynigion presennol.

Yn dilyn y gwaith hwn, newidiodd hyd arfaethedig y contract i gytundebau blynyddol (o gytundebau pum mlynedd) i ddarparu ar gyfer ffermwyr tenant. Mae'r ymgynghoriad yn cynnig, os bydd tenant yn colli rheolaeth ar ddarn o dir yn y cynllun yn annisgwyl, y gellir ei dynnu o'r cynllun gyda gostyngiad cymesur yn y taliad a dim cosb ariannol.

Mae'r ymgynghoriad yn disgrifio'r anawsterau posibl i denantiaid o ran cyflawni'r gofyniad gorchudd coed o 10% e.e. os yw'r cytundeb tenantiaeth yn atal plannu. Gellir datgan y tir hwn a'i eithrio o'r cyfrifiad ynghylch y gofyniadau.

Fodd bynnag mae **Cymdeithas y Ffermwyr Tenant yn credu** nad yw'r cynigion diweddar yn ystyried ffermwyr tenant yn iawn. Er enghraifft, dywed:

Welsh Government must address the interactions between the Rules of Good Husbandry and the scheme requirements. Tenant farmers with agreements under the Agricultural Holdings Act 1986 are required to make maximum efficient use of the land that they farm. Many Farm Business Tenancy agreements will also refer to the Rules of Good Husbandry as a matter of contract. Whilst this needs to be looked at generally (with perhaps an amendment to the Rules of Good Husbandry

which were drawn up in 1947) this is a particular issue in respect of the proposed hedgerow management standards within the Sustainable Farming Scheme.

Mae'r undebau ffermio hefyd wedi codi pryderon i denantiaid, ee **dywedodd FUW**:

...a number of other practical limitations for tenants must also be considered, such as the ability to obtain landlords' permission to create new ponds and habitats or deciding who has management control of historical features or individual trees within hedgerows.

Ffermio organig

Mae'r **ymgyngoriad yn dweud** y bydd ffermwyr sydd ag ardystiad organig yn cael 'mynediad esmwyth' i'r cynllun gan y bydd llawer o'r camau gweithredu eisoes yn rhan o reolaeth y fferm. Mae'n dweud y bydd sawl Gweithred Opsiynol yn cyd-fynd ag arferion organig a'i bod yn bosibl y bydd y camau hyn yn cael eu blaenoriaethu i'w cyflwyno. Fodd bynnag, mae **Soil Association Cymru** yn nodi bod oedi cyn cyflwyno'r Gweithredoedd Dewisol yn rhoi ffermwyr organig dan anfantis. Dywed y dylid manylu ar y gweithredoedd organig sydd ar gael yn yr haen ddewisol yn 2024 i roi darlun clir i ffermwyr organig wrth ymuno â'r cynllun yn 2025.

Cafodd **Cynllun Cynefin Cymru** (y cynllun yn lle Glastir yn 2024) ei feirniadu am beidio â chefnogi rheolaeth organig o ffermydd cyfan. Yn dilyn y pryderon hyn, **cyhoeddodd Llywodraeth Cymru** becyn cymorth i ffermwyr organig ar gyfer 2024. Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cynnig cynnwys elfen ychwanegol o gymorth ariannol i'r sector organig yn ystod y cyfnod pontio drwy'r Taliad Sefydlogrwydd er mwyn cynnal y cymorth ychwanegol hwn.

Cyngor ac arweiniad

Mae disgwyl i ganllawiau manwl y cynllun a chyfres o safonau dilysadwy sy'n nodi rheolau'r cynllun gael eu cynhyrchu cyn i'r cynllun ddechrau.

Mae'r ymgynghoriad yn cyfeirio'n fras at gyngor ac arweiniad sydd ar gael gan **Cyswllt Ffermio**. Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn y Senedd wedi cynnal **ymchwiliad byr** ar rôl Cyswllt Ffermio o ran cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Mae RSPB Cymru yn nodi pwysigrwydd cyngor ac arweiniad priodol (wyneb yn wyneb) wrth drosglwyddo i gyflenwi contractau. Mae'n tynnu sylw at yr angen am gyngor cytbwys i gyflawni gofynion integredig y cynllun: ffermio ar gyfer bwyd, natur a'r hinsawdd.

Dywed y Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur mai un o elfennau mwyaf cadarnhaol cynllun amaeth-amgylcheddol blaenorol Tir Gofal oedd y ffaith bod swyddogion lleol ar gael i helpu ffermwyr i wneud cais i'r cynllun a'i roi ar waith. Dywed **Soil Association Cymru** fod cyngor yn fuddsoddiad yng nghanlyniadau'r cynllun.

Mae NFU Cymru yn pwysleisio, er bod y cyngor cywir yn bwysig, na ddylai gwasanaethau cynghori gael eu defnyddio i wneud yn iawn am ddyluniad cynllun gorgymhleth, a bod yn rhaid iddynt ddarparu gwerth am arian.

Cydymffurfio

Mae cydymffurfio â meini prawf cymhwysedd y cynllun, ynghyd â'r rheolau, y llinell sylfaen reoleiddiol a chamau gweithredu cymwys, yn amod talu.

Cynigir gwiriadau yn y fan a'r lle gan ddefnyddio cyfuniad o archwiliadau ffisegol ac arsylwi ar y ddaear (synhwyro o bell a ffotograffiaeth awyr). Bydd Taliadau Gwledig Cymru yn dewis ac yn archwilio canran o geisiadau cynllun bob blwyddyn i gadarnhau bod rheolau'r cynllun a'r gofynion sylfaenol rheoleiddiol yn cael eu bodloni.

Gall methu â datgan gwybodaeth yn gywir arwain at ostyngiadau a chosbau. Mewn amgylchiadau o ddiffyg cydymffurfio lle mae angen cosbau ariannol, mae'r ymgynghoriad yn cynnig set o safonau amrywiol a matrices sancsiynau sy'n nodi canlyniadau.

3. Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Bydd y llinell sylfaen reoleiddiol – y byddai ffermwyr yn cael eu gwobrwyo uwchlaw'r llinell honno o dan y Cynllun – yn cael ei phennu gan y 'Safonau Gofynnol Cenedlaethol'.

Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i ffermwyr fodloni rhai safonau sylfaenol ar reoli amgylcheddol, lles anifeiliaid ac olrhain – a elwir yn 'drawsgydymffurfio' – o dan system etifeddol yr Undeb Ewropeaidd sy'n dal ar waith. Mae **trawsgydymffurfio** yn cynnwys y canlynol:

- gofynion rheoli statudol – mae'r rhain yn berthnasol i bob ffermwr p'un a yw'n rhan o system gymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin ai peidio; a hefyd
- amodau amaethyddol ac amgylcheddol da – dim ond i ffermwyr sy'n cael cymorth y mae'r rhain yn berthnasol.

Yn ystod y gwaith craffu ar Fil Amaethyddiaeth (Cymru), **dywedodd** y Gweinidog ar y pryd ei bod yn bwriadu cydgrynhoi rheolau presennol, gan gynnwys trawsgydymffurfio, i ffurfio'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

4. Modelu effaith economaidd

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganlyniadau modelu economaidd i gyd-fynd ag ymgynghoriad diweddaraf y Cynllun. Comisiynwyd ADAS, Pareto Consulting, Coleg Gwledig yr Alban (SRUC) a Choleg Prifysgol Dulyn i amcangyfrif effeithiau economaidd posibl elfennau o'r Cynllun arfaethedig ledled Cymru o ran defnydd tir amaethyddol a llafur, allbwn fferm ac incwm ffermydd. Mae adroddiad yr astudiaeth yn cyflwyno'r prif amcangyfrifon a ganlyn:

- byddai tua 26,000 hectar o gynefin lled-naturiol newydd a 28,000 hectar o goetir newydd yn cael eu creu;
- byddai incwm busnesau fferm yn gostwng £199 miliwn a byddai allbwn ffermydd yn gostwng £125 miliwn;
- byddai unedau da byw yn gostwng 122,000 a llafur ar y fferm yn gostwng 11 y cant; a
- fel arfer byddai'r effeithiau mwyaf ar ffermydd llaeth a'r effeithiau lleiaf ar ffermydd pori ucheldirol.

Mae'n bwysig nodi bod yr amcangyfrifon yn deillio o fodelu yn seiliedig ar ragdybiaethau penodol. Dywedir yn adroddiad yr astudiaeth fod ffigurau incwm ac allbwn ffermydd yn 'dangos y canlyniadau gwaethaf'. Mae'r **adroddiad yn gwneud nifer o rybuddion arwyddocaol**, gan gynnwys y canlynol:

- Mae'r dadansoddiad yn ystyried Gweithredoedd Cyffredinol y Cynllun, ond nid yw'n cynnwys haenau Opsiynol a Chydweithredol y Cynllun a fyddai'n cynhyrchu incwm (a chostau) pellach i fusnesau fferm.
- Mae'r dadansoddiad yn rhagdybio y bydd 100% o ffermydd yn ymrwymo i fesurau Gweithredu Cyffredinol.
- Mae'r dadansoddiad yn ystyried effeithiau sefydlog yn hytrach na galluogi ymatebion deinamig, h.y. nid yw'r modelu yn cynnwys newidiadau i gymysgeddau mentrau ffermio a/neu ddwysedd rheolaeth, na gweithgareddau arallgyfeirio ar ffermydd.
- Nid yw'r 11 y cant o ostyngiad mewn llafur ar y fferm o reidrwydd yn awgrymu gostyngiad gwirioneddol mewn llafur ar y fferm, gan fod oriau amaethyddol a weithir yn aml yn fwy na'r ffigur enwol, sef 1900 awr y flwyddyn. Yn yr un modd, gallai tasgau nad ydynt yn ymwneud ag amaethyddiaeth gynyddu. Fodd bynnag, **mae NFU Cymru yn honni** y gallai hyn fod gyfystyr â cholli 5,500 o swyddi.

Ceir crynodeb llawn o'r amcangyfrifon a'r cafeatau wedi'u modelu ar dudalen 23 o'r **adroddiad**.

Mae'r undebau ffermio wedi ymateb yn gryf i'r amcangyfrifon. **Dywedodd NFU Cymru**:

The data paints a 'shocking scenario' for Welsh farming and if this were to become a reality, one that completely contradicts the 'Keep Farmers Farming' title of Welsh Government's latest consultation.

Hefyd, beirniadodd NFU Cymru y dadansoddiad oherwydd nad yw'n modelu effaith ehangach ar fusnesau gwledig. Fodd bynnag, mae'r **Asesiad Effaith Integredig** sy'n cyd-fynd â'r cynigion yn rhagdybio bod nifer o Weithredoedd Cyffredinol:

... yn debygol o gynyddu'r angen am ddarparu nwyddau agwasanaethau i ffermydd, gan greu cyfleoedd i fusnesau eraill. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys creu coetiroedd, gweithredoedd yn ymwneud ag iechyd a lles anifeiliaid, a chreu pyllau dŵr tymhorol ar y fferm.

Dywedodd **y Gweinidog fod y modelu'n seiliedig ar fersiwn gynharach** o'r Cynllun arfaethedig, ac na fyddai'r effaith amcangyfrifedig ar gyflogaeth mor sylweddol yn y cynigion terfynol. Ym mis Chwefror, **ymrwymodd Llywodraeth Cymru** i gynnal dadansoddiad economaidd wedi'i ddiweddarau.

5. Cyllideb

Nid yw cyllideb y cynllun yn hysbys ar hyn o bryd. Mae'r **ymgyngoriad yn nodi**:

Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio cael yr un cyfanswm o gyllid o leiaf gan Lywodraeth y DU ar gyfer ffermwyr a rheolwyr tir ag y byddwn yn ei dderbyn yn 2024/25. Gan gydnabod y pwysau mae chwyddiant wedi'i roi ar y diwydiant ffermio, fel y mae wedi effeithio ar sectorau eraill a phawb yng Nghymru, byddwn yn disgwyl i Lywodraeth y DU godi'r cyllid yn unol â chwyddiant.

Daeth **asesiad annibynnol** (2023) ar gyfer yr RSPB, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Ymddiriedolaethau Natur i'r casgliad fod angen £496m ar Gymru yn flynyddol dim ond i fodloni blaenoriaethau rheoli tir amgylcheddol. **Mae NFU Cymru wedi amcangyfrif** bod angen i gyfanswm cyllid disodli'r PAC presennol o £380m gynyddu i dros £507m, a hynny dim ond i gadw i fyny â chwyddiant.

Nid yw'n hysbys sut bydd y gyllideb yn cael ei dyrannu ar draws yr haenau Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol, ac felly ar ba elfennau penodol y bydd pwyslais. Mae **Soil Association Cymru** yn yn awgrymu dyrannu o leiaf 50 y cant o gyllideb y cynllun i'r haenau Opsiynol a Chydweithredol erbyn diwedd y cyfnod pontio.

6. Cymorth amaethyddol mewn rhannau eraill o'r DU

Lloegr

Yn Lloegr, mae taliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol yn cael eu dileu dros gyfnod pontio o saith mlynedd, gyda'r taliadau terfynol i'w gwneud yn 2027. Bydd Cynllun y Taliad Sylfaenol yn cael ei ddisodli gan y **cynllun Rheoli Tir Amgylcheddol**, sydd i fod ar gael o 2024. Bydd gan y Cynllun Rheoli Tir Amgylcheddol dri phrif edefyn:

- Cymhelliant Ffermio Cynaliadwy: taliadau cyffredinol ar gyfer rheoli tir mewn ffordd sy'n amgylcheddol gynaliadwy.
- Stiwardiaeth Cefn Gwlad (adfer natur leol): taliadau cystadleuol (nad ydynt yn gyffredinol) i gefnogi adferiad natur leol a blaenoriaethau amgylcheddol lleol.
- Cynllun Adfer Tirwedd: cymorth i brosiectau ar raddfa fawr sy'n gwneud newidiadau hirdymor i ddefnydd tir sy'n gwella ecosystemau.

Yr Alban

Yn yr Alban, bydd taliadau tebyg i Gynllun y Taliad Sylfaenol yn parhau, ond gydag amodau newydd yn cael eu cyflwyno yn 2025. O hynny ymlaen, bydd o leiaf hanner y cyllid yn cael ei dargedu at enillion bioamrywiaeth a mesurau lliniaru ac addasu i'r hinsawdd. Bydd y **fframwaith o 2025** yn cynnwys pedair haen:

- Haen 1: Taliad Uniongyrchol Lefel Sylfaen – taliadau cynhwysol ar gyfer cwrdd â safonau gofynnol o ran yr amgylchedd, iechyd a lles anifeiliaid a Gwaith Teg.
- Haen 2: Taliad Uniongyrchol Lefel Uwch – taliadau cyffredinol i'r rhai sy'n cyflawni gofynion Haen 1 ac sy'n ymgymryd â gweithgarwch pellach sy'n sicrhau canlyniadau ar gyfer natur a gwella hinsawdd.
- Haen 3: Taliad Opsiydol – taliadau cystadleuol (nad ydynt yn gyffredinol) ar gyfer camau gweithredu wedi eu targedu ar gynefinoedd penodol neu rywogaethau diffiniedig.
- Haen 4: Cymorth Cyflenwol – cymorth ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus, cyngor a chyfnewid gwybodaeth.

Gogledd Iwerddon

Yng Ngogledd Iwerddon, gohiriwyd datblygu cynllun newydd gan y **ffai**
th nad oedd Gweithrediaeth yn dilyn etholiadau 2022. Yn dilyn adfer y Cynulliad
dywedodd y Gweinidog Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig y
bydd gwaith yn ailddechrau i ddatblygu'r cynllun:

The overall objectives are to transition to a more sustainable farming sector by seeking to implement policies and strategies that benefit our climate and environment, while supporting our economically and socially significant agriculture sector.

Cafodd dogfennau penderfynu amrywiol eu cyhoeddi cyn yr etholiadau ym mis Mawrth 2022 yn dilyn **ymgyngoriad** ar gynigion polisi amaethyddol at y dyfodol ar gyfer Gogledd Iwerddon.

7. Y camau nesaf

Mae'r **undebau ffermio a Chymdeithas Ffermwyr Tenant** yn dadlau mai dim ond pan fydd y cynllun yn y cynnig un lefel o sefydlogrwydd i fusnesau bwyd-amaeth â'r system gymorth bresennol y dylid ei gyflwyno. **Mae NFU Cymru yn galw** ar Lywodraeth Cymru i sefydlu a chadeirio cyfarfodydd rheolaidd ynghylch y Cynllun Ffermio Cynaliadwy gydag arweinwyr NFU Cymru rhwng nawr a dyluniad terfynol y cynllun.

Mae grwpiau amgylcheddol yn rhybuddio y byddai gohirio cyflwyno'r cynllun yn arwain at oblygiadau o ran cyflawni ymrwymadau sero net ac ymrwymadau bioamrywiaeth.

Mae Dr Ludvine Petetin yn awgrymu y gallai dull graddol fesul cam fod yn gyfaddawd.

Dywedodd y Gweinidog ar y pryd **wrth Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd** ar 6 Mawrth nad oes dim wedi ei gadarnhau'n bendant ac y bydd newidiadau heb unrhyw amheuaeth. Roedd y Gweinidog yn cytuno ei bod yn bwysicach cael y Cynllun yn iawn na'i wneud erbyn 2025.

Ymrwymodd y Gweinidog i ddadansoddiad economaidd pellach a chyhoeddi lefelau taliadau yn yr haf.

Mae'r camau nesaf bellach yn nwylo Huw Irranca-Davies AS, sydd newydd ei benodi'n Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Materion Gwledig.

Mae Pwyllgorau'r Senedd yn parhau i gasglu tystiolaeth i wneud argymhellion i helpu i lunio dyluniad terfynol y cynllun.